# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

## Mawrth 2013

**1. Rhagarweiniad**

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi mabwysiadu'r arfer gorau o gynhyrchu, cyhoeddi a chynnal adolygiad rheolaidd o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB). Bydd y Gronfa'n parhau â'r arfer hwn mewn ymateb i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009.

**1.1** Ers **1 Gorffennaf 2000, mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin,** sef yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed, (Deddf Blwydd-dal 1972, Rheoliadau 1995) gyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ac mae'n rhaid i'r datganiad hwnnw gynnwys y canlynol:

- Y mathau o fuddsoddiadau a ddelir
- Y cydbwysedd o wahanol fathau o fuddsoddiadau
- Y risgiau
- Yr elw a ddisgwylir ar y buddsoddiadau
- Gwerth y buddsoddiadau
- Graddau'r ystyriaeth a roddir i Fuddsoddi'n Gymdeithasol Gyfrifol wrth fuddsoddi
- Ymarfer yr hawliau (yn cynnwys hawliau pleidleisio) sydd ynghlwm wrth fuddsoddiadau

**1.2** Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymgynghori â'i ymgynghorydd annibynnol ac wedi cysylltu â'i reolwyr buddsoddiadau wrth lunio'r datganiad hwn yn neilltuol ynghylch nodau ac amcanion y Gronfa a'r modd y dymuna'r Gronfa wireddu'r amcanion hynny.

**1.3** Mae dwy ran i'r polisi buddsoddi cyffredinol:

- **Rheolaeth** strategol ar yr asedau sydd yn sylfaenol yn gyfrifoldeb y Panel Pensiwn. Mae'r Panel Pensiwn yn cynnwys 3 Aelod Etholedig o Gyngor Sir Caerfyrddin (ac 1 dirprwy aelod) a enwebwyd gyda phwerau dirprwyedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Cynghorir y Panel gan ymgynghorydd annibynnol a Chyfarwyddwr Adnoddau Cyngor Sir Caerfyrddin. Ysgogir y rheolaeth strategol gan yr amcanion buddsoddi a nodir yn adran 2.

- **Rheoli'r asedau o ddydd i ddydd** sy'n cael ei ddirprwyo i reolwyr buddsoddiadau proffesiynol, a ddisgrifir yn adran 4.

**2. Amcanion Strategol Cronfa Bensiwn Dyfed**

**2.1** Mae'r Panel Pensiwn wedi mabwysiadu'r amcanion canlynol mewn perthynas â rheolaeth strategol y Gronfa:

- Sicrhau bod asedau'r Gronfa yn cyfateb i'r rhwymedigaethau neu'n fwy na hwy, h.y. mae'r Gronfa'n parhau'n ddiddyled

- Sefydlu meincnod dyrannu asedau strategol, y disgwylir iddo roi bod i'r enillion gofynnol ar fuddsoddiadau yn y tymor hir, gan dderbyn lefel y risg sydd ynghlwm wrth wneud hynny

- Cadw cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr i'r lleiafswm posibl heb beri anwadalwch.

**2.2** Mae’r Gronfa yn agored i nifer o risgiau wrth fuddsoddi.

Credir mai’r canlynol yw’r rhai mwyaf pwysig:

- **Y Risgiau o ran Cyllido**
    - Diffyg cyfatebiaeth ariannol - Y risg y bydd asedau'r gronfa'n methu tyfu yn unol â chostau cynyddol talu rhwymedigaethau'r Gronfa a'r risg y bydd taliadau pensiwn a buddion yn cynyddu yn sgil chwyddiant annisgwyl ac na fydd asedau'r Gronfa'n cynyddu'n ddigon cyflym i dalu'r costau uwch.
    - Newidiadau o ran demograffeg - Y risg bod pobl yn byw yn hirach a bod ffactorau demograffig eraill yn newid ac yn cynyddu cost buddion y Gronfa.
    - Risg systemig - Y posibilrwydd y bydd nifer o wahanol asedau a/neu reolwyr buddsoddiadau yn dioddef methiant cysylltiedig a chydamserol, sy'n fwy difrifol o bosibl oherwydd 'ymddygiad heintus', ac yn achosi i gostau talu rhwymedigaethau'r Gronfa gynyddu.

  Mae'r Panel yn mesur ac yn rheoli'r diffyg cyfatebiaeth ariannol mewn dwy ffordd. Pennwyd meicnod dyrannu asedau strategol ar gyfer y Gronfa ac asesir risg o'i chymharu â'r meincnod drwy fonitro dyraniad asedau'r Gronfa a'r elw ar fuddsoddiadau o'i gymharu â'r meincnod. Hefyd, asesir risg o'i chymharu â'r rhwymedigaethau trwy fonitro'r elw ar fuddsoddiad o'i gymharu â'r rhwymedigaethau.

  Mae'r Panel yn parhau i adolygu'r tybiaethau ynghylch marwolaeth a thybiaethau demograffig eraill a allai ddylanwadu ar gost y buddion. Caiff y tybiaethau hyn eu hystyried yn ffurfiol yn y prisiad sy'n digwydd bob tair blynedd.

  Mae'r Panel yn ceisio lliniaru'r risg systemig drwy gynnal portffolio amrywiol ond ni ellir darparu'n benodol ar gyfer pob posibilrwydd.

- **Risg o ran Asedau**
    - Crynhoad - y risg bod dyrannu adnoddau sylweddol i un categori o asedau sydd wedyn yn tanberfformio o'i gymharu â'r disgwyliadau gan arwain at anawsterau o ran cyflawni'r amcanion cyllido.
    - Anhylif - y risg na fydd y Gronfa'n gallu cyflawni'i rhwymedigaethau oherwydd nad oes digon o asedau rhyddion ganddi.
    - Tanberfformiad gan reolwyr – Bod rheolwyr y gronfa'n methu â chyflawni'r elw ar fuddsoddiadau a dybiwyd pan bennwyd eu mandadau.

  I reoli'r risg o ran asedau mae'r Panel yn darparu cyfyngiadau ymarferol ar fuddsoddiadau'r Gronfa sy'n gwyro'n sylweddol o'r dull bwriedig drwy bennu canllawiau ynghylch arallgyfeirio a thrwy fuddsoddi mewn amrywiaeth o fandadau buddsoddi. Mae gan bob un o'r rhain ei amcan penodedig, meincnod perfformiad a phroses reoli sydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau bod y risg o fewn y ffiniau sy'n dderbyniol gan y Panel. Trwy fuddsoddi mewn amrywiaeth o asedau gan gynnwys ecwitïau a bondiau wedi'u dyfynnu, mae'r Panel wedi cydnabod bod angen cael rhywfaint o hylifedd yn y tymor byr. Wrth benodi nifer o reolwyr buddsoddi mae'r Panel wedi ystyried y risg sy'n gysylltiedig â thanberfformiad rheolwr unigol.

- **Risg arall sy'n gysylltiedig â darparwyr**
    - Risg yn sgil trosglwyddo - Y risg y bydd costau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau o reolwr i reolwr. Hyd yn hyn nid oes trosglwyddo sylweddol wedi digwydd yn y gronfa ond pe bai hynny'n digwydd yn y dyfodol byddai'r Panel yn derbyn cyngor proffesiynol ac yn ystyried penodi rheolwyr trosglwyddo arbenigol.

- Risg o ran cadw asedau - Y risg y bydd hawliau economaidd ar asedau'r Gronfa yn cael eu colli pan gânt eu dal gan geidwad neu pan fyddant yn cael eu prynu a'u gwerthu.
- Diffygdalu – Y posibilrwydd y bydd cyfatebwr yn diffygdalu ac na fydd ymrwymiadau'n cael eu talu.

Mae'r panel yn monitro ac yn rheoli risgiau yn y meysydd hyn drwy graffu'n rheolaidd ar y darparwyr ac archwilio'r gwaith a wnânt ar ran y Gronfa.

**3. <u>Rheolaeth Strategol</u>**

**3.1** Polisi'r Panel Pensiwn fydd monitro'n rheolaidd, mewn ymgynghoriad â'r actiwari, y sefyllfa debygol o ran y gymhareb ddiddyledrwydd er mwyn lleihau cymaint â phosib ar y risg y bydd y gymhareb diddyledrwydd yn dirywio yn is na 100%. Gallai'r Panel Pensiwn ystyried newid y Strategaeth Fuddsoddi os caiff ei gynghori ar unrhyw adeg yn y dyfodol mai dyna'r unig ffordd dderbyniol i osgoi tanariannu.

**3.2** Yn sgil astudiaeth asedau/ rhwymedigaethau gan gwmni Mercer, mae'r Panel Pensiwn wedi gosod meincnod sy'n cynnwys cymysgedd o fathau ac ystodau o asedau y gall y rheolwr buddsoddiadau weithredu oddi mewn iddynt yn ôl fel y gwêl yn dda. Dangosir hyn yn adran 4.1. Cred y Panel y bydd y cyfuniad hwn o asedau, yn ogystal ag ystyried proffil rhwymedigaethau'r Gronfa, yn cyflawni'r tybiaethau yn y prisiant a gynhaliwyd ym mis Mawrth, 2007. Bydd y cyfuniad hefyd yn gymorth i reoli'r risgiau a amlinellir yn adran 2.2.

**4. <u>Rheolaeth yr Asedau o Ddydd i Ddydd</u>**

**4.1** Mae'r Cytundebau Rheoli Buddsoddiadau rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a'r rheolwyr buddsoddiadau yn nodi telerau ac amodau rheolaeth Cronfa Bensiwn Dyfed o ddydd i ddydd. Mae dyraniad yr asedau a bennwyd yn dilyn yr astudiaeth asedau/rhwymedigaethau yn 2008 a'r buddsoddiad arfaethedig mewn eiddo ledled Ewrop, fel a ganlyn:

| | **Meincnod (%)** | **Ystod (%)** |
|---|---|---|
| Ecwitis yn y DU | 39.0 | 37.5 – 40.5 |
| Ecwitis Tramor | 30.0 | 28.5 – 31.5 |
| Eiddo ledled Ewrop | 10.0 | - |
| Bondiau | 20.0 | 18.5 – 21.5 |
| Arian parod (yn cynnwys GAL) | 1.0 | 0.0 – 10.0 |
| **CYFANSWM** | **100.0** | |

| **Ecwitis Tramor** | **Meincnod (%)** | **Ystod (%)** |
|---|---|---|
| Gogledd America | 10.00 | 5.00 - 15.00 |
| Ewrop (ac eithrio'r DU) ) | 5.00 | 0.00 - 10.00 |
| Japan | 3.50 | 0.00 – 8.50 |
| Gwledydd datblygedig y Môr Tawel (heb gynnwys Japan) | 3.25 | 0.00 - 8.25 |
| Marchnadoedd sy'n Amlygu | 8.25 | 3.00 - 13.25 |
| **CYFANSWM** | **30.00** | |

| **Bondiau** | **Meincnod (%)** | **Ystod (%)** |
|---|---|---|
| Stociau Gilt Wrth Indecs<br>Bondiau Corfforaethol y DU | 10.0<br>10.0 | 5.0 - 15.0<br>5.0 - 15.0 |
| **CYFANSWM** | **20.0** | |

Mae'r cyfyngiadau ychwanegol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Bondiau Tramor | 0 - 7% |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau Tramor | 43.0 – 53.0% |

Caniateir i'r rheolwyr buddsoddiadau amrywio canrannau'r dyraniadau o fewn y terfynau a nodir uchod. Mewn amgylchiadau eithriadol, ac o fewn terfynau'r gyfraith, gellir amrywio'r canrannau hyn gyda chytundeb blaenorol y Panel Pensiwn. Er y gall y rheolwyr buddsoddiadau ymestyn i 10% o arian o fewn yr ystod a ganiateir, byddant yn hysbysu'r Panel pan ânt dros 5% o arian. Mae swm bach o arian yn cael ei ddal yn lleol gan Gyngor Sir Caerfyrddin er mwyn talu holl dreuliau anfasnachol y Gronfa.

Yn dilyn y penderfyniad i fuddsoddi 10% o werth y Gronfa Bensiwn mewn eiddo ledled Ewrop, y bwriad yw defnyddio risg dderbyniol er mwyn cyflawni'r elw angenrheidiol ar y buddsoddiad. Mae eiddo yn ased sy'n cael ei dderbyn fel ffordd o amrywio'r risg. Mae hyn wedi effeithio ar derfynau'r meincnodau buddsoddi y gall y rheolwyr buddsoddiadau fuddsoddi o'u mewn, fel y nodir uchod.

**4.2** Mae'r cyfyngiadau a roddir ar y rheolwyr buddsoddiadau wedi'u cynnwys yn y Cytundebau Rheoli Buddsoddiadau. Caniateir i Gronfa Bensiwn Dyfed fuddsoddi yn y canlynol:

- Unedau mewn cronfeydd gweithredol a goddefol, yn cynnwys Global Ascent Ltd.
- Cyfranddaliadau, stociau trosadwy a gwarannau a ddyfynnir ar unrhyw Gyfnewidfa yn y DU
- Cyfranddaliadau a gynhwysir ym Mynegai FT/S&P neu Fynegai MSCI.
- Eiddo ledled Ewrop, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gronfeydd ar y cyd
- Dyledion benthyciadau Sofran
- Dyled gorfforaethol – rhaid i gyfraddau credyd bondiau beidio â bod yn llai na Aa3 neu AA- gan Moody's Investor Services neu Standard and Poors
- Deilliaid unrhyw un o'r cyfranddaliadau neu farchnadoedd uchod gyda chaniatâd blaenorol, ond rhaid iddynt beidio â llywio'r portffolio.
- Cronfeydd Oes – hyd at uchafswm o 35% o'r Gronfa.
- Arian unrhyw farchnad ym Mynegai FT/S&P neu Fynegai MSCI

Mae'n hawdd trosi pob buddsoddiad, ac eithrio'r daliadau eiddo, yn arian.
Mewn perthynas â Bondiau Corfforaethol y DU mae'r rheolwr buddsoddiadau wedi cadarnhau mai at y diben o reoli'r portffolio yn effeithiol yn unig y defnyddir deilliaid, ac na chânt eu defnyddio at ddibenion hapfuddsoddi neu drosoliad y portffolio.

Mae cyfyngiadau Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (fel y'u diwygiwyd) wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Rheoli Buddsoddiadau. Maent hefyd wrth gwrs yn berthnasol i'r DEB hefyd.

**4.3** Mae’n ofynnol bod y rheolwyr buddsoddiadau yn perfformio’n well na’r meincnod. Y targed a roddir i Blackrock yw ceisio perfformio 0.7% yn well na’r meincnod bob blwyddyn am gyfnod o dair blwyddyn dreigl heb berfformio mwy na 3% islaw'r meincnod mewn unrhyw flwyddyn. Pennir y meincnod drwy gymryd canran dosbarthiad yr asedau a roddir i’r rheolwr ar gyfer iddo weithio o’u cwmpas gan ddefnyddio perfformiad cyfartalog cyffredin Awdurdod Lleol Cwmni WM ar gyfer pob dosbarth o asedau. Gall y rheolwr buddsoddiadau felly fasnachu rhwng y dosbarthiadau o asedau fel y gwêl yn dda o fewn y terfynau a nodir uchod.

Y targed a roddir i Schroder yw ceisio perfformio 0.75% yn well na Mynegai Cronfa Eiddo ar y Cyd IPD bob blwyddyn am gyfnod o bum mlynedd dreigl.

Y targed a roddir i Partners Group yw ceisio elw gros absoliwt sy'n 12% y flwyddyn (a meincnod eilaidd o 200 o bwyntiau sylfaen y flwyddyn uwchlaw'r Mynegai uchod) am gyfnod o 3 blynedd dreigl.

**4.4** Mae’r Panel Pensiwn, a gynorthwyir gan yr ymgynghorydd annibynnol a’r Cyfarwyddwr Adnoddau, yn cyfarfod â’r rheolwyr buddsoddiadau bob chwarter er mwyn adolygu perfformiad, penderfynu ar newidiadau priodol i'r buddsoddiadau a monitro pob agwedd ar y swyddogaeth fuddsoddi. Rheolwyr, cynghorwyr ac ymgynghorwyr presennol Cronfa Bensiwn Dyfed yw:

- Rheolwyr Buddsoddiadau - **Blackrock, Schroders a Partners Group**
- **Cynghorydd Annibynnol** - Mr Eric Lambert
- **Cwmni Mesur Perfformiad** - WM Performance Services
- Actiwari - **Mercer**
- Gwarchodwr - **Northern Trust**

**5. Ystyriaethau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol**

Mae'r Panel Pensiwn yn cydnabod bod ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol ymhlith y ffactorau y bydd rheolwyr buddsoddiadau'n rhoi ystyriaeth iddynt lle bo hynny'n berthnasol, wrth ddewis pa fuddsoddiadau i'w prynu, eu cadw neu eu gwerthu. Lluniodd y rheolwyr ddatganiadau sy'n disgrifio'u polisïau. Mae'r Panel wedi dirprwyo awdurdod i'r rheolwyr weithredu yn unol â hynny.

**6. Arfer Hawliau Pleidleisio**

Mae'r Panel wedi dirprwyo'r hawliau pleidleisio i'r rheolwyr buddsoddiadau ar y sail y byddant yn arfer eu pwerau pleidleisio gyda'r nod o ddiogelu a gwella'r gwerth a gaiff cyfranddalwyr yn y tymor hir. Gan hynny mae'r rheolwyr wedi ysgrifennu canllawiau sy'n disgrifio'u prosesau a'u harferion. Anogir y rheolwyr i bleidleisio yn unol â'u canllawiau mewn perthynas â'r holl benderfyniadau yng nghyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac arbennig y cwmnïau. Gweler Atodiad A.

**7. Rhoi Benthyg Stoc**

Mae'r polisi ynghylch rhoi benthyg stoc yn adlewyrchu'r mandadau y mae'r Panel wedi'u rhoi i'r rheolwyr buddsoddiadau, sy'n cynnwys mandadau ar y cyd a rhai wedi'u didoli.

O ran mandadau wedi'u didoli, mae gan y Panel ddisgresiwn absoliwt o ran caniatáu rhoi benthyg stoc neu beidio. Mae'r Panel wedi ystyried ei ymagwedd at roi benthyg stoc gan dderbyn cyngor gan ei gynghorydd buddsoddiadau. Ar ôl ystyried y cyngor hwnnw, penderfynodd y Panel beidio â chaniatáu rhoi benthyg stoc o fewn unrhyw rai o'i fandadau buddsoddi sydd wedi'u didoli.

Caiff rheolwyr cronfeydd ar y cyd roi benthyg rhywfaint o stoc ar ran deiliaid unedau yn y gronfa. Pan fydd cronfa ar y cyd yn rhoi benthyg stoc bydd y rheolwr yn datgelu i ba raddau y bydd hynny'n digwydd. Nid oes gan y Panel reolaeth uniongyrchol dros roi benthyg stoc mewn cronfeydd ar y cyd, fodd bynnag, mae'n fodlon fod graddau a natur y gweithgaredd hwn yn briodol i amgylchiadau'r Gronfa.

Mae'r Panel yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'i bolisi ynghylch rhoi benthyg stoc.

**8. 6 Egwyddor Myners a Rhestr Gyfeirio Cydymffurfiaeth**

Gweler Atodiad B

**9. Cydymffurfio â’r Datganiad hwn**

Bydd y Panel Pensiwn yn monitro cydymffurfiaeth â’r datganiad hwn yn flynyddol yn ei gyfarfod ym mis Mai. Bydd y rheolwyr buddsoddiadau yn cadarnhau yn ysgrifenedig bob blwyddyn eu bod wedi cydymffurfio â’r datganiad hwn ac os bydd unrhyw newid o bwys i’r datganiad hwn rhoddir gwybod i'r rheolwyr buddsoddiadau am hynny’n ddi-oed.

**10. Adolygu’r Datganiad hwn**

Adolygir y datganiad hwn mewn ymateb i unrhyw brisiant, astudiaeth asedau/rhwymedigaethau neu unrhyw ddigwyddiad perthnasol arall a fyddai’n dylanwadu ar bolisïau’r Gronfa.

Mae hynny’n cynnwys newidiadau i rwymedigaethau, cyllid, rheoliadau neu risg dderbyniol y Gronfa. Cynhelir yr adolygiad o leiaf bob blwyddyn, neu’n amlach os bydd y sefyllfa’n cyfiawnhau hynny. Bydd bob parti perthnasol yn rhan o’r adolygiad.

***Datganiad gan Reolwyr y Gronfa***

Mae Blackrock, Schroders a Partners Group wedi cadarnhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) ac wedi cydymffurfio â'r DEB yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.